# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 4

ASESU A CHYNNYDD

### 57 Hybu a chynnal dealltwriaeth o gynnydd

(1) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo person perthnasol (neu bersonau perthnasol o ddisgrifiad penodedig) i gymryd camau penodedig gyda golwg ar hybu a chynnal dealltwriaeth o gynnydd yng nghyd-destun cwricwlwm perthnasol.

(2) Rhaid i berson perthnasol y rhoddir cyfarwyddyd iddo o dan yr adran hon gydymffurfio â'r cyfarwyddyd.

(3) Yn yr adran hon—

(a) mae i "cwricwlwm perthnasol" a "person perthnasol" yr ystyr a roddir yn adran 56, a

(b) ystyr "penodedig" yw penodedig mewn cyfarwyddyd o dan yr adran hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 57 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I2** A. 57 mewn grym ar 1.9.2022 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2022/652, **ergl. 4(c)**

**I3** A. 57(1) mewn grym ar 11.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/12, **ergl. 2(b)**

**I4** A. 57(1) mewn grym ar 1.9.2022 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2022/12, **ergl. 3(b)**

**I5** A. 57(2)(3) mewn grym ar 1.9.2022 gan O.S. 2022/12, **ergl. 3(b)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 57.